

Diweddariad Uned Ddata - WSLC Mehefin 2017

Digwyddiad Hysbysrwydd Cenedlaethol 2017

Daeth mwy na 100 o gynrychiolwyr i'n pumed Digwyddiad Hysbysrwydd Cenedlaethol – Cynllunio gyda'n gilydd i wella llesiant lleol: Beth sy'n gweithio? ddydd Iau 2 Mawrth 2017 yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Rydym ni wedi bod yn fodlon iawn ar yr adborth positif rydym ni wedi ei gael.

Mae manylion pellach am y digwyddiad, gan gynnwys dolenni â'r cyflwyniadau, ar gael ar ein [gwefan](#).

Asesiadau o'r boblogaeth a llesiant

Erbyn hyn mae'r holl asesiadau o'r boblogaeth a llesiant wedi cael eu cyhoeddi. Rydym yn parhau i gefnogi sawl ardal wrth iddynt symud ymlaen i gynlluniau ardal a llesiant o ran coladu a chyflwyno data i ddeall themâu sy'n dod i'r amlwg ac amcanion.

I gefnogi'r broses ymhellach, ac i sicrhau bod yr asesiadau'n hygyrch ac yn sylfaen i'r gwaith cynllunio sy'n mynd rhagddo, rydym yn gweithio gyda rhanbarthau i ddatblygu dulliau ar-lein. Bydd y rhain yn gwednewid y dogfennau papur i mewn i dudalennau ar-lein sy'n cynnig asesiad rhyngweithiol wedi ei ategu gan y data sylfaen.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chris Perkins (Chris.Perkins@unedddatacymru.gov.uk).

PAMS

Yn dilyn proses ymgynghori drylwyr, cyhoeddom ni set ddiwygiedig o fesurau perfformiad yn ddiweddar ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r mesurau diwygiedig, sy'n dod i rym o Ebrill 2017 ymlaen, yn cynnig trosolwg eglur a syml o berfformiad llywodraeth leol a sut mae'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am y mesurau i'w gweld [yma](#).

Rydym ni bellach yn troi ein sylw at ddatblygu'r set ddata ymhellach ar gyfer 2018-19. Fel rhan o'r ymgynghoriad, nodwyd nifer o 'feysydd i'w datblygu'. Meysydd darparu gwasanaethau awdurdodau lleol yw'r rhain lle caiff mesurau perthnasol eu datblygu, ac y bydd ymgynghori yn eu cylch yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Suzanne Draper (Suzanne.Draper@unedddatacymru.gov.uk).

Partneriaethau sgiliau rhanbarthol

Rydym yn parhau i gefnogi gwaith y tair partneriaeth sgiliau ranbarthol drwy eu harsyllfeydd data. Yn ddiweddar rydym wedi dechrau ychwanegu data pellach Gwybodaeth am y Farchnad Lafur at y systemau er mwyn cefnogi proses gynllunio eleni.

Lle bo'n bosibl rydym yn cefnogi ymagwedd gyson ledled Cymru tuag at y sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio a'i rheoli gan y partneriaethau.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chris Perkins (Chris.Perkins@unedddatacymru.gov.uk).

Dewis Cymru

Erbyn hyn mae Dewis Cymru yn 'fyw' ledled Gogledd Cymru, Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ychwanegu gwybodaeth leol yn y Canolbarth a'r Gorllewin, Gwent ac Abertawe. Castell-nedd Port Talbot yw'r unig awdurdod lleol i beidio â mabwysiadu Dewis Cymru yn ffurfiol.

Mae'r wefan (www.dewis.cymru) ar hyn o bryd yn denu tua 45,000 o olygon ar dudalennau y mis gan ryw 4,000 o ymwelwyr.

Rydym wedi ychwanegu cyfleusterau ychwanegol yn ddiweddar sy'n gadael i ni ddeall cwmpas adnoddau ledled Cymru ar lefel genedlaethol, ranbarthol, leol a lefel wardiau, a hynny yn ôl chwiliad allweddair a/neu ddsbarthiad. Bydd hyn yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau a chomisiynwyr ddeall i ba raddau mae ardal benodol yn cael ei gwasanaethu gan yr adnoddau a restrir yn Dewis.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Richard Palmer (Richard.Palmer@uneddatacymru.gov.uk).

Cynllunio'r Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol 2015-16

Rydym ni wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar am ddata Cynllunio'r Gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol 2015-16. Nod yr adroddiad yw cefnogi awdurdodau lleol a Chyngor Gofal Cymru (nawr Gofal Cymdeithasol Cymru) wrth gynllunio am anghenion y gweithlu yn y dyfodol a llywio comisiynu hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

Dengys yr adroddiad nifer y gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol a hynny mewn Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a meysydd eraill. Mae'n edrych hefyd ar dueddiadau'r gweithlu dros amser a throsiant staff a'r gweithlu rhagamcanol dros y tair blynedd nesaf.

I weld adroddiad 2015-16 cliciwch [yma](#).

Yr Uned Ddata: Cynllun Strategol 2017-21

Mae tynor newydd cynghorau a newidiadau eraill i dirwedd gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig cyfle amserol i ni ystyried cyfeiriad strategol yr Uned yn y dyfodol. Yn ystod y misoedd sy'n dod byddwn yn datblygu cynllun strategol newydd a fydd yn rhoi cyfeiriad a ffocws i'n gwaith am y cyfnod 2017-21. Byddwn yn ystyried beth beth ddylwn a beth na ddylwn ni fod yn ei wneud, a sut mae uchafu'r gwerth rydym yn ei ychwanegu.

Ein bwriad yw ceisio barn rhanddeiliaid yn ystod yr haf. Yn y cyfamser, os oes gennych chi unrhyw feddyliau neu syniadau am gyfeiriad ein gwaith yn y dyfodol, neu os hoffech chi drafod yr adolygiad, byddai'n dda iawn gennym glywed oddi wrthydd chi – cysylltwch ag Andrew Stephens (Andrew.Stephens@uneddatacymru.gov.uk).